Y Brenin Darogan

Mae'r stori hon yn dechrau yn y dyfodol agos, pan oedd bywyd yn annheg i bobl mewn rhai rhannau o Brydain. Roedd yno wahaniaeth anferth rhwng dosbarthiadau cymdeithasol Lloegr a gweddill Prydain. Cofnodwyd mai Cymru oedd un o'r gwledydd tlotaf yn y byd ar y pryd. Achos hyn oll fu dewis Prydain i adael yr Undeb Ewropeaidd rai blynyddoedd ynghynt. Fe achosodd hyn i fusnesau'r Deyrnas Unedig golli nifer fawr o bartneriaid masnachu, ac arweiniodd hynny at dlodi ledled y wlad.

Pan fu farw'r Brenin Arthur, Cadwaladr ap Cadwallon ac Owain Glyndŵr, fe wnaeth pob un addewid i'w gwlad y byddent yn atgyfodi un dydd i drechu unrhyw un a oedd yn gwneud drwg i'r genedl. Roedd y diwrnod hwnnw wedi dod – a dyma pryd yr oedd ar y genedl eu hangen fwyaf.

Yn ôl yn amser dechrau ein stori heddiw, yng Nghymru, Cernyw a'r Alban, clywodd y bobl sŵn corn yn atseinio o bob cwr o'r wlad. Gwyddai'r bobl drwy ryw reddf naturiol, rywsut, mai dyma'r alwad iddynt sefyll yn erbyn anghyfiawnder y Saeson tuag atynt. Caniad y corn oedd eiliad atgyfodi Arthur yng Nghernyw, Cadwaladr yn yr Alban ac Owain Glyndŵr yng Nghymru, ac arweiniodd hyn at ddigwyddiad sydd bellach yn cael ei alw'n Chwyldro Celtaidd. Brwydrodd pobl Cymru, Cernyw a'r Alban nes i'r frwydr gyrraedd Llundain. Yno bu i Balas Buckingham a'r Senedd-dy gael eu dymchwel. Dianc i Fwlgaria fu ffawd y Teulu Brenhinol yn ôl y sôn.

Roedd Prydain bellach yn wlad newydd o'r enw'r Gwerindir, gyda Chymru'n ymgorffori Canolbarthau Lloegr a Swydd Efrog, Cernyw yn ymgorffori De a De-Ddwyrain Lloegr a'r Alban yn ymgorffori Siroedd Gogleddol Lloegr. Cafodd Caerlleu, a arferai gael ei alw'n Drawsfynydd yn yr hen amser, ei henwi'n brifddinas newydd Gwerindir gan mai dyna oedd lleoliad prif ddinas Cymru yn yr oesoedd canol, cyn i Loegr ddymchwel yr hen ddiwylliant Cymreig.

Oherwydd iddynt gyflawni'u haddewidion i'w gwlad, bu i Arthur, Cadwaladr ac Owain droi'n lludw yn ôl, ond nid cyn datgan y proffwydoliaethau hyn:

"Fe alwaf arnoch chi bob un yn dyst,
mae yno waed brenhinol yn eich mysg.
Ymddiredwch ynof pan ddywedaf am eich Brenin,
ei fod o mewn gwirionedd yn ddawnus Ddewin.
I'r gwir Frenin dydwedaf i,
gwrandewch yn astud ar fy nghri.
Cymerwch fy lludw a'i osod ar fy nghraig,
Adroddwch y swyngan i ddarganfod fy Nraig.
Gofynnaf i chi ymddiried yn y Brenin,
serch eich gwawd gan ei fod yn Ddewin.
Ystyriwch nawr yr hyn rwy'n ddatgan,
a dilynwch chwi y Brenin Darogan!"

Ers hynny, mae'r llywodraeth newydd, Senedd y Drisgell, wedi bod yn chwilio ym mhob archifdy yng Nghymru, Cernyw a'r Alban am wir etifeddion gorseddau'r tair gwlad. Hyd yn hyn, maent wedi darganfod disgynydd i'r Brenin Marc a goronwyd yn Dywysog Robert y Cyntaf o Gernyw. Maent hefyd wedi gallu darganfod disgynyddes i William Wallace a goronwyd yn Dywysoges Isabel y Cyntaf o'r Alban. Ond y disgynnydd pwysicaf a brenin holl Gwerindir oedd disgynydd Math fab

Mathonwy, y Brenin Dewi y Cyntaf. Dyna ble mae ein stori yn dechrau, gydag un bachgen ifanc â thalentau o fri a'i goroni ef.

___

Aeth saith mis heibio mewn chwinciad. O leiaf dyna sut y teimlai i Dewi. Teimlai Dewi ei fod mewn breuddwyd ac arno ofn deffro ohoni nawr gan ei bod yn freuddwyd mor wych.

Roedd dydd y Coroni wedi cyrraedd o'r diwedd, a'r dydd a ddewiswyd oedd Calan Gaeaf. Prin ei bod hi'n teimlo'n aeafol iawn, chwaith – er bod yno ambell i gwmwl du'n llercian yn fygythiol ar orwelion yr awyr, tywynnai'r haul yn llachar. Gwyddai Dewi y byddai pawb a oedd o unrhyw bwys am ddod i'r seremoni hon.

Byddai'r seremoni'n digwydd yng Nghastell Dewi, castell anferthol a leolwyd yng nghanol Caerlleu, ble bu Tomen-y-Mur unwaith. Roedd Castell Dewi'n dŷ digon da i Dduw ei hun fyw ynddo!

Teimlai Dewi'n ryfeddol o hamddenol. Meddyliai mai'r rheswm am hyn oedd oherwydd ei fod wedi arfer â phopeth erbyn hyn. A dweud y gwir, roedd o'n teimlo'n eithaf cyffrous ac yn ddigon parod am unrhywbeth nawr.

Daeth Louis DeBeaux, y dylunydd ffasiwn gorau yn y byd, â'i wisg frenhinol i'w ystafell wely mewn casyn anferth a lusgodd ar ei ôl. Ymgrymodd o flaen y darpar frenin, a helpodd i baratoi Dewi ar gyfer y seremoni trwy ei wisgo a gwneud ei wallt a'i golur yn barod ar gyfer y camerâu.

Ar ôl iddo ymbincio a gwisgo, cerddodd Dewi am beth oedd yn teimlo fel milltir tuag at ddrysau crand yr Ystafell-Orsedd, ble gallai glywed cannoedd o leisiau, er gwaethaf trwch anferthol y drws.

Canodd Cyrn y Wlad eu ffanffer cyn i'r drysau sylweddol agor. Gallai Dewi glywed sylwebaeth aelodau'r wasg, yn tynnu sylw at y ffaith ei fod yn gwisgo gwisg frenhinol gan Louis DeBeaux. Clywodd hefyd rai ohonynt yn sylwebu ar bob cam a gymerodd tuag at yr Orsedd, cadair mor enfawr nes iddi fwrw cysgod dros bron i hanner yr ystafell yn ei hanferthwch. Ar ôl yr hyn a deimlai fel awr o gerdded tuag at yr orsedd, penliniodd Dewi o flaen y sedd ryfeddol, wrth i'r Archdderwydd osod y goron ar ei ben. Safodd Dewi yn ôl ar ei draed a wynebodd y gynulleidfa, yn union fel y gwnaeth yn yr ymarfer ddoe. Ymddangosodd dau Dderwydd arall bob ochor iddo gan ddal cleddyf anferthol dros ei ben.

"Y gwir yn erbyn y byd, a oes heddwch?" atseiniodd llais yr Archdderwydd.
"Heddwch!" ymatebodd y gynulleidfa.
"Calon wrth galon, a oes heddwch?"
"Heddwch!" gwaeddodd y gynulleidfa yn uwch.
"Gwaedd uwch adwaedd, a oes heddwch?"
"Heddwch!" bloeddiodd y gynulleidfa yn uwch fyth.

"Coronaf di Dewi Elias Mathonwy, a'th enwi'n Dewi y Cyntaf, Brenin y Gwerindiroedd."

Dilynwyd y datganiad hwn gan gymeradwyaeth fyddarol.
Nesaf, cariwyd carreg fedd i mewn i'r Ystafell-Orsedd gan ddau ddyn cyhyrog. Dyma'r foment fawr i Dewi, y tro cyntaf iddo ddefnyddio'i hud a lledrith yn gyhoeddus. Beth pe bai rhywbeth yn mynd o'i le?

Nid oedd amser i boeni nawr. Daeth Derwydd at yr Archdderwydd a'i gyflwyno â chlustog sidan. Ar y clustog roedd wrn yn cynnwys lludw Owain Glyndŵr. Wrth ochr yr wrn roedd cŷn ac wrth ochr hwnnw roedd sgrôl wedi'i lapio â rhuban coch. Ar y sgrôl roedd y swyngân. Rhoddodd yr Archdderwydd bob un o'r pethau hyn i Dewi.

Gwasgarodd Dewi'r lludw mewn cylch o amgylch y garreg fedd, yn union fel roedd y cyfarwyddiadau ar y sgrôl yn dweud wrtho am wneud. Yna, roedd y rhaid iddo gerfio llun o drisgell y tu mewn i gylch ar y garreg fedd. Gwnaeth o hyn bron yn berffaith.

Yn olaf roedd yn rhaid dweud y swyn a fyddai'n geni'r Ddraig o grombil y garreg fedd.

"O ddyfnderoedd dyfna'r ddaear,
O bedwar ban y byd,
Galwaf ar rym y pedwar gwynt
A dihunaf di o'th drwmgwsg o dan y graig."

Roedd tawelwch llethol yn yr ystafell. Dechreuodd ambell aelod o'r gynulleidfa sibrwd ymysg ei gilydd.
"Ddywedais i, yn do?"
"O diar, am anffodus!"
Dyna ambell beth a ddaeth i glyw Dewi. Llanwodd ei galon â phryder o glywed amheuon y dorf.

Ond, diolch byth, fe ddigwyddodd rhywbeth. Goleuodd y drisgell ar y garreg yn llachar fel tân newydd. Tawelodd y gynulleidfa eto. O'r distawrwydd llethol, dechreuodd yr Ystafell-Orsedd ddiasbedain â sŵn plisgyn yn torri. Roedd fel sŵn mil o wyau'n cael eu torri i wneud yr omled fwyaf a welwyd ar wyneb y Ddaear. Roedd y graig yn dechrau hollti. Gwyddai Dewi mai sŵn Tanwen, y Ddraig, yn trio torri'n rhydd, oedd hyn.

Mewn chwinciad fe ffrwydrodd darn o'r garreg ar agor. Dyma oedd rhyfeddod llwyr. Allan o'r hollt yn y garreg, fe ddringodd y creadur prydferthaf a welwyd erioed. Cennau coch fel y machlud oedd gan Tanwen. Fe glywyd ochenaid unsain gan y gynulleidfa pan ehangodd Tanwen ei hadenydd. Pan befriodd golau'r haul trwyddynt, edrychent fel dwy fantell sidan gyda phatrymau celtaidd o bob math drostynt. Pan agorodd ei llygaid, seiniwyd ochenaid ddwysach fyth gan y gynulleidfa. Roeddent yn ddwy ruddem ddisgleiriog yn ei phenglog a syllai ar bawb yn y gynulleidfa.

"Foneddigion a boneddigesau Gwerindir a gweddill y byd, dyma yw eich tarian," cyhoeddodd Dewi.

Yn sydyn, torrwyd yr hedd gan sŵn afiach. Sŵn dryllau'n saethu oedd i'w glywed drwy goridorau'r castell. Daeth ton pryderus o wefr dros y gynulleidfa. Ffrwydrodd y drysau mawr ar agor a cherddodd tri dyn i mewn, a dryllau peryglus yr olwg yn eu dwylo.

"*We are the English Loyalists, long live the English monarchy!*" gwaeddent ar draws yr Ystafell-Orsedd gyda dicter yn eu calonnau.
Safodd Dewi a'r Derwyddon yno, heb syniad sut i ymateb i hyn. Triodd Dewi feddwl am gynghanedd a fyddai yn amddiffyn pawb yn yr ystafell, ond ni allai feddwl am un ar gymaint o frys.

"*Fire!*" gwaeddodd un o'r dynion.

Rhewodd Dewi, heb unrhyw glem beth i'w wneud. Paratodd i farw, ond yn sydyn ymddangosodd fflam anferthol o'i flaen. Roedd Tanwen wedi toddi'r bwledi wrth iddynt ffrydio drwy'r awyr. Yna fe losgodd hi'r dryllau yn nwylo'r dynion. Safai'r tri dyn yno yn ddi-arf ac yn llawn arswyd.

Gwyddai Dewi fod miloedd o lygaid yn dal i syllu arno ac yn barod i fod yn dyst i'w weithred gyntaf fel Brenin y Gwerindiroedd. Safodd yno am ychydig eiliadau, gan bendroni beth i'w wneud nesaf. Yna cofiodd am hanes ei gyndad, Gwydion, a'i weithredoedd ef.

"Nid oes Brenhines," cyhoeddodd Dewi i bawb ei glywed, "dim ond y Brenin Darogan. Ac y fi yw eich Brenin Darogan!"

Edrychodd ar y tri dyn a oedd erbyn hyn yn penlinio o'i flaen a'u pennau'n llipa.

"Cosbaf y bradychwyr hyn drwy eu hanfon yn ôl i'r byd o ble daeth pob un ohonom. I fyd natur" dywedodd yn llawn balchder. Estynnodd ei ddwylo allan yn barod i ddweud y swyn a ynganodd ei gyndad fil o flynyddoedd yn ôl, ac wrth i'r gynulleidfa a'r camerâu edrych yn graff ar bob gair a ddywedai nawr, dechreuodd lefaru:

" Chwi fydd y sgrech sy'n hollti'r gwyll,
Y bloedd annaerol rhwng y dail,
Y wedd pert a sgrech hyll,
Yn dychryn ennyd pob anifail
Amddifadaf chwi o'ch wir ddynoliaeth
A'ch sgrech yn sgrech aflafar.
Chwi fydd gelyn y coed, yr ysglyfaeth,
Sgrech bydd gennych, nid trydar.
Melltithiaf chi, trawsffurfiaf chi,
I fyd sy'n llawn o wactod.
Byw, hyd angau, byddwch chi
ym myd y Tylluanod."

Yn y fan a'r lle fe drawsffurfiwyd y tri bradychwr yn dair tylluan wen. Syllodd pawb ar y rhyfeddod o'u blaenau. Pan welodd Dewi fod pawb yn syllu arno, fe drodd at yr orsedd ac eisteddodd ar y gadair anferthol. Gwyddai arweinydd newydd y Gwerindir yn y foment honno, gyda phawb yn ei dderbyn, a gyda Tanwen wrth ei ochr, mai ef oedd y gwir Frenin Darogan.